| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 20 HYDREF 2011 |
| **TEITL** | SAFLE BYSIAU |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - AMGYLCHEDD |

1.1 Lleolir gorsaf gwasanaethau bysiau lleol Caernarfon ym Mhenllyn. Mae’r lleoliad pwrpasol yma yn hwyluso hygyrchedd i ganol y dref. Mae hefyd yn gyfnewidfa rhwng gwasanaethau ac yn gweithio yn effeithiol o ran logisteg symudiadau bysiau a cherddwyr i ag o ganol y dref. Mae cyfleusterau cyhoeddus hefyd wrth law sydd yn cael ei adnabod fel elfen ddefnyddiol mewn gorsaf fysiau prysur fel Caernarfon.

1.2 Mae’n werth nodi fod y trefniadau presennol ar gyfer bwsiau teithio yn cynnwys man pwrpasol i ollwng teithwyr ar y Maes ac yn galluogi bwsiau teithio i ollwng a chodi ymwelwyr yn y safle bws ger adeilad yr ‘Empire’, yn Ffordd Balaclafa. Mae’r trefniant yma yn ddefnyddiol ar adegau prysur o’r flwyddyn ac yn lleihau pwysau traffig yng nghanol y dref.

1.3 Y rheswm dros leoli'r safle gollwng a chodi ar Ffordd Balaclafa oedd i annog ymwelwyr bysiau i gerdded drwy’r dref a threulio amser o fewn y dref gaerog. Mae’n ymddangos bod y mwyafrif o’r bwsiau yn defnyddio’r man gollwng ar y Maes, ac mae’r Adran Rheoleiddio a’r Adran Economi a Chymuned yn gefnogol i hynny barhau i’r dyfodol.

1.4 Mae’n bwysig nodi bod cyfyngiadau ymarferol o safbwynt defnyddio’r Maes fel safle codi ymwelwyr bysus teithio yn cynnwys maint, lleoliad ac addasrwydd fel safle parcio bysus am gyfnodau hir, ynghyd ac effaith ar lif traffig a diogelwch defnyddwyr y Maes.

1.5 Mae’r adrannau o’r farn bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion bwsiau teithio sydd yn ymweld â Chaernarfon ac yn cefnogi yr economi leol. Ni ystyrir bod angen gwneud addasiadau ar hyn o bryd. Ond, os am adolygu’r trefniadau presennol, byddai’n werth ystyried gwneud hynny drwy ymgynghori gyda busnesau a grwpiau lleol gan adeiladau ar yr ymgynghori sydd wedi digwydd wrth ddatblygu’r cynllun canol tref.